Haf o Hwyl
Summer of Fun

Prosiect Teclynwyr
Project Gadgeteers

O'r cloriau i'r cledrau!

Wrth dy fodd efo trenau? Mewn llyfrau... ffilmiau... hanes... wrth deithio o A i B bob dydd? Beth am godi stêm a gadael i'th ddychymyg fynd â thi am dro?

Cwis cyflym!

Faint o filltiroedd o draciau trên weli di yma yng Nghymru? **A:**_____

A faint o orsafoedd? **A:**_____

Mae'r traciau neu'r cledrau hyn wedi hen arfer cludo cynhyrchion a pharseli di-ri o gwmpas y wlad, yn ogystal â phobl fel ti a fi! Mae trenau cargo neu nwyddau yn symud anifeiliaid, ceir, post, parseli, bwyd a mwy. Y tro nesaf weli di drên yn gwibio heibio, beth am ddyfalu beth mae'n ei gario. Mae'r rheilffyrdd yn ffordd wych o symud y llwythi trwm hyn o le i le, yn bennaf oherwydd eu bod yn lleihau'r traffig ar y ffordd sy'n well i'r amgylchedd.

Y Cyntaf yn y Byd!

Yng Nghymru y bu siwrnai trên stêm gynta'r byd. Digwyddodd y cyfan ar 21 Chwefror 1804 (dros 200 mlynedd yn ôl!) rhwng gwaith haearn Penydarren ac Abercynon, pellter o bron i 10 milltir. Cymerodd locomotif Richard Trevithick (dyfeisiwr y locomotif stêm!) 4 awr a 5 munud i deithio deg milltir, gan deithio cyflymder uchaf o bron i 5 milltir yr awr. Dyw hyn fawr cyflymach na cherdded! Roedd yn cario 10 tunnell o haearn, 5 wagen ac 80 o bobl.

Mae Richard Trevithick yn enwog fel un o ddyfeiswyr pwysicaf ei oes. Er, yn ôl yr hanes, doedd gan ei athrawon fawr o fynedd gydag e gan nad oedd ei waith ysgol yn dda iawn a'i bod hi'n well ganddo botsian gydag injans!

Her Ymchwil!

Alli di ddod o hyd i Benydarren ac Abercynon ar fap o Gymru? Hola'r llyfrgellydd am help os oes angen. Os wyt ti eisiau rhagor o wybodaeth am yr antur trên stêm gyntaf hon a dy fod yn byw ger Merthyr Tudful, gallet ti fynd i weld heneb arbennig sy'n cofio am y daith hanesyddol hon. Neu os wyt ti yn ardal Abertawe, galli weld ail-gread maint llawn o'r injan ar waith yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

A record byd arall yng Nghymru!

Fues ti erioed ar Reilffordd Ffestiniog? Dyma gwmni rheilffordd hyna'r byd sy'n dal ar waith heddiw. Cafodd ei sefydlu ym 1832. Mae'r cwmni yn berchen ar y lein sy'n rhedeg o Flaenau Ffestiniog i Borthmadog yn ogystal â Rheilffordd Eryri i Gaernarfon.

Atebion y cwis: Mae dros 920 milltir (dros 1400 cilometr) yn cael eu defnyddio gan drenau'r prif linellau ac mae dros 200 o orsafoedd!

Cysylltiad Cymreig Tomos y Tanc a Rheilffordd Talyllyn

Oeddet ti'n gwybod mai model oedd Tomos i ddechrau, wedi'i greu gan y Parchedig W Awdry i'w fab Christopher? Yn fuan iawn, roedd Christopher eisiau straeon am anturiaethau'r trên bach. Alli di wneud dy drên model dy hun drwy ailddefnyddio gwastraff y cartref fel bocsys grawnfwyd? Efallai yr hoffet ti beintio neu liwio model a chreu straeon yn seiliedig arno fel rhai'r Parchedig W Awdry.

Mae Rheilffordd Talyllyn ym Meirionnydd, sydd yn ne Eryri ac fe'i hagorwyd yn 1865 i gario llechi o'r chwareli lleol. Byddi'n dotio at ffaith arbennig y lein hefyd, yn enwedig os wyt ti wedi darllen unrhyw un o lyfrau **Tomos a'i Ffrindiau gan y Parchedig W Awdry**. Aeth y Parchedig Awdry i Dalyllyn 70 mlynedd yn ôl, a dyna ei ysbrydolodd i osod y rheilffordd gul ar Ynys Sodor.

Oeddet ti'n gwybod?
Fod yna 12 rheilffordd stêm yng Nghymru? Galli ddysgu mwy am bob un ohonyn nhw yn www.greatlittletrainsofwales.co.uk/cy/

Rhif y gwlith!

Caerdydd Canolog yw gorsaf brysuraf Cymru, gyda thua 44,000 o deithwyr bob dydd. Ond mae'n brysurach fyth ar ddiwrnodau gemau rygbi.

Yr orsaf dawelaf yng Nghymru yw Gorsaf Dinas y Bwlch, de Powys. Mae'n 'arhosfan ar gais' sy'n golygu bod rhaid tynnu sylw'r trên sy'n pasio os wyt ti'n aros yn yr orsaf neu roi gwybod i aelod staff ar y trên dy fod ti eisiau mynd oddi ar y trên yno. Dim ond 156 o bobl ddefnyddiodd yr orsaf yn 2019/20. Beth am fynd i'th orsaf agosaf i weld faint o drenau sy'n stopio yno a faint o bobl sy'n defnyddio'r orsaf bob dydd?

Beth am ysgrifennu stori am drenau...

Mae mynd ar drên yn debyg i stori. Yr orsaf ymadael yw dechrau'r stori, y daith yw'r canol, a'r orsaf olaf yw'r diwedd. Alli di gynllunio dy stori dy hun am y rheilffordd drwy fapio dechrau, canol a diwedd?

Wedi dy ysbrydoli? Beth am ysgrifennu rhywbeth isod?

Haf o Hwyl Summer of Fun
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru Part Funded by Welsh Government
SCL Cymru
SIALENS DDARLLEN YR HAF | SUMMER READING CHALLENGE
SCIENCE MUSEUM GROUP | TANIO'R DYCHYMYG YSBRYDOLI ARLOESWYR | IGNITING IMAGINATION INSPIRING INNOVATORS | THE READING AGENCY
Gwaith celf y Teclynwyr gan Julian Beresford, gwaith celf arall gan Emma Kate Parkinson a © The Reading Agency 2022
Gadgeteers artwork by Julian Beresford, other artwork by Emma Kate Parkinson and © The Reading Agency 2022